**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC / AM
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a busnes
Aelod Cynulliad De-ddwyrain Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Mawrth 2016

Annwyl William,

Fel y gwyddoch, rwyf wedi bod yn arwain ymgysylltiad â Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) ar y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strategol (EFSI). Roeddwn am achub y cyfle hwn i dynnu'ch sylw at y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais ar 14 Mawrth, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y datblygiadau diweddar yma ac yn Lwcsembwrg:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016/euinvestmentbank/?lang=en

Yn o elfennau allweddol Cynllun Buddsoddi Ewrop (IPE) yw Porthol Prosiectau Buddsoddi Ewrop - porthol ar y we sy'n galluogi hyrwyddwyr prosiectau a leolir yn yr UE i gyrraedd darpar fuddsoddwyr yn fyd-eang. Rwyf yn falch o roi gwybod i chi y disgwylir i'r porthol fynd yn fyw ym mis Ebrill 2016, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach yn annog hyrwyddwyr prosiectau i ddarparu manylion am eu prosiectau drwy'r ddolen ganlynol. Mae'n hynod o bwysig rhestru'r holl brosiectau sydd ym mhiblinell Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt gael eu gweld nid yn unig gan y Banc, ond hefyd gan fuddsoddwyr posibl eraill ledled y byd. Rwyf wedi ysgrifennu at y Cabinet i roi gwybod iddo fod y porthol ar waith bellach ar gyfer rhestru prosiectau a gofynnir i swyddogion ddechrau ar y gwaith hwn. Ochr yn ochr â rhestru ein prosiectau ein hunain fel hyrwyddwr prosiectau, fel y gwyddoch, mae gan nifer o hyrwyddwyr prosiectau ddiddordeb uniongyrchol yn y cyfleuster hwn a byddwn yn annog hyrwyddwyr ledled Cymru i gyfrannu.

http://ec.europa.eu/priorities/European-Investment-project-portal-eipp_en

Bydd yn parhau mor bwysig ag erioed i'r Llywodraeth hyrwyddo pob cyfle buddsoddi hyfyw Fanc Buddsoddi Ewrop, ac i fuddsoddwyr posibl eraill, lle y bydd y cyfle hwnnw'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r cyhoedd ac yn sicrhau gwerth am arian.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderaf y bydd hyn yn ddefnyddiol yng nghyd-destun eich adroddiad diweddar-'Ymchwiliad i Botensial yr Economi Forol yng Nghymru'.



**Jane Hutt AC / AM**
Minister Y Cyllid a Busnes Government
Y Gweinidog Cyllid a busnes y Llywodraeth